No.

# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes, L.O. Rowlands ac N.C. Thomas

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio) a B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 740 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 741 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – DYLID cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

## 742 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 743 ADOLYGIAD LLEOLI BLYNYDDOL GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC (CYF) –

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yr adroddiad yr oedd y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 9 Tachwedd 2021 i'w hystyried. Amlinellodd yr adroddiad y camau a gymerwyd o fewn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ystod 2020/21 o ran darparu lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a'r camau blaenoriaeth ar gyfer 2021/22.

Dangosodd yr adroddiad ansefydlogrwydd y gyllideb ar gyfer lleoliadau a'r effaith sylweddol y gallai achosion unigol ei chael ar wariant cyffredinol. Ymhlith y

dylanwadau allweddol roedd: cymhlethdod cynyddol anghenion plant; polisi "Pan Fydda i’n Barod" Llywodraeth Cymru (sy’n galluogi plant i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed); defnyddio lleoliadau remand pan fo awdurdodau lleol wedi dod yn gyfrifol am gostau gofalu am blant nad ydynt yn cael byw gartref tra’n destun achos troseddol; ac effaith sylweddol pandemig COVID-19.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, gyda chaniatâd i siarad, fod anghenion plant bob amser yn cael mwy o flaenoriaeth nag ystyriaethau cyllidebol yn y gwasanaeth, a'i fod am longyfarch i'r staff am eu gwaith, yn enwedig o ran y cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr maeth ym Mro Morgannwg.

Mewn ymateb i ymholiadau gan yr Aelodau, dywedodd y Swyddogion y canlynol:

- Er bod cynnydd mewn achosion COVID-19 o ganlyniad i'r amrywiolyn Omicron wedi effeithio ar rai timau o fewn y gwasanaeth, roedd pob un yn dal i weithredu ac roedd yr aelodau o staff yn glynu wrth yr holl fecanweithiau a roddwyd ar waith i leihau lledaeniad y feirws. O ddechrau'r pandemig, roedd angen i dimau fod yn greadigol o ran sut yr oeddent yn rhoi cymorth, gyda llawer o ddarpariaeth yn parhau'n bersonol ond gyda staff hefyd yn dysgu sut y gallai darpariaeth rithwir weithio.
- Roedd y cynllun "Pan Fydda i'n Barod", a oedd yn galluogi oedolion ifanc i aros gyda'u gofalwr maeth tan eu bod yn 21 oed, wedi bod ar waith ers rhai blynyddoedd, ac roedd yn rhaid i’r gofalwyr maeth a’r rheiny yn eu gofal wneud penderfyniad ar y cyd yn hyn o beth. Roedd egwyddor y cynllun yn bwysig, fodd bynnag, roedd yn effeithio ar y gwasanaeth o ran y ffaith bod lleoliadau gofal maeth yn cael eu defnyddio, er pwysleisiodd y Swyddog i'r Aelodau nad ystyriwyd hyn yn beth negyddol. Dywedodd y Swyddog y byddai'n cael ffigurau ynghylch nifer yr unigolion sy'n rhan o'r cynllun yn y Fro a'u dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.
- O ran effaith y pandemig ar ôl-groniadau yn y llys, ar y dechrau cafwyd cais i flaenoriaethu ceisiadau diogelu dros brosesau eraill, er enghraifft gorchmynion mabwysiadu, nad oeddent yn cael eu hystyried yn argyfyngau. Er y bu mwy o gapasiti gan y llys, nid oedd hyn bob amser yn cyd-daro â chapasiti o fewn y gwasanaeth na gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn gweld mwy o gyfleoedd i wneud ceisiadau ac i ddiddymu gorchmynion gofal.
- Er y byddai’r ffigurau penodol yn amrywio ar draws Awdurdodau Lleol, roedd tuedd ar i fyny gyffredinol o ran niferoedd cynyddol a thrafferthion capasiti, a gellid gweld yr un themâu eang ledled Cymru.
- Gan edrych ymlaen at yr un adroddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf, roedd y Swyddog a'r Aelod Cabinet yn rhagweld y byddai plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches yn ymddangos ynddo gan y byddai angen i Awdurdodau Lleol ddarparu ar gyfer nifer penodol fesul cylch, ac roedd y Fro wrthi'n paratoi ei hymateb i hyn ynghyd â Chaerdydd.

Nododd y Cynghorydd N.C. Thomas fod yr Aelodau o’r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, ar ôl i’r un adroddiad cael ei gyflwyno iddynt, wedi trafod y posibilrwydd o ddefnyddio eu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol i ehangu

cyrhaeddiad unrhyw ddeunydd hyrwyddo yr oedd y Cyngor yn ei ddefnyddio i gynyddu nifer y gofalwyr maeth, a gobeithiai y byddai'r Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn hapus i wneud yr un peth, gyda chytundeb y Cadeirydd a'r Swyddog.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi'r Adolygiad Lleoli Blynyddol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

(2) DYLID pasio diolchiadau'r Pwyllgor ymlaen i'r tîm Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc am eu gwaith caled o dan amgylchiadau anodd.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

744 EFFAITH COVID-19 AR SGILIAU LLYTHRENNEDD DISGYBLION YM MRO MORGANNWG (CDS) –

The Principal Improvement Partner and the Strategic Lead for Literacy, Language and Communications at Central South Consortium (CSC) presented the report which provided an overview of how the coronavirus pandemic had impacted on pupils' literacy skills in schools across the Vale of Glamorgan. It considered how schools were actively addressing the impact on pupils' literacy through the Cyflwynodd y Prif Bartner Gwella a'r Arweinydd Strategol ar gyfer Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu yng Nghonsortiwm Canolbarth y De (CCD) yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o sut yr oedd pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar sgiliau llythrennedd disgyblion mewn ysgolion ledled Bro Morgannwg. Ystyriodd sut yr oedd ysgolion yn mynd ati i fynd i'r afael â'r effaith ar lythrennedd disgyblion drwy nodi blaenoriaethau mewn cynlluniau datblygu ysgolion, a'u defnydd o grant Rhaglen Recriwtio, Adfer, Codi Safonau (RACS): Dysgu Carlam Llywodraeth Cymru: Yn ogystal, amlinellodd yr adroddiad strategaeth llythrennedd CDC, yn ogystal â'r cynnig dysgu proffesiynol sydd ar gael ar hyn o bryd i ysgolion gefnogi datblygiad llythrennedd.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o arfer ysgolion ledled Bro Morgannwg. Roedd hyn i enghreifftio'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad ac i roi blas o'r gwaith a oedd wedi digwydd mewn ysgolion ym mhob rhan o ardal yr Awdurdod Lleol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi canfyddiadau'r adroddiad ynghylch effaith COVID-19 ar sgiliau llythrennedd disgyblion ym Mro Morgannwg.

(2) DYLID nodi’r gwaith strategol parhaus a wneir gan ysgolion i fynd i’r afael yn weithredol ag effaith y pandemig coronafeirws ar sgiliau llythrennedd disgyblion.

(3) DYLID nodi'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i gefnogi eu datblygiad llythrennedd trwy Strategaeth Llythrennedd CCD a'r rhaglen cynnig proffesiynol.

(4) DYLID nodi gwerthfawrogiad a diolchiadau’r y Pwyllgor am y gwaith caled sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

745 ADRODDIAD EFFEITHIOLRWYDD AC EFFEITHLONRWYDD CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE 2020-2021 (CDS) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Reolwr Gyfarwyddwr a Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr CDC, drosolwg o waith y consortiwm yn y flwyddyn academaidd 2020-2021. Roedd yn cynnwys sylwebaeth a gwerthusiad ar effeithlonrwydd ac effeithioldeb gwaith CDC a'i gyfraniad at y broses o wella ysgolion ledled y rhanbarth.

Rhoddodd prif gorff yr adroddiad ddadansoddiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â nifer o feysydd gwaith allweddol a nodwyd gan CDC mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn flaenoriaethau yn ei Gynllun Busnes ar gyfer 2020-2021. Yn ystod 2020-2021, dewiswyd pedwar o brif feysydd gwaith y Consortiwm – Cymorth i Lywodraethwyr, Dysgu Digidol, Llwybrau Gyrfa Cynnar a Chymorth a Datblygu i Arweinwyr, ar gyfer gwerthusiad â ffocws. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r gweithgareddau a gynhaliwyd mewn perthynas â phob maes, gwybodaeth feintiol ac ansoddol am allbynnau a chanlyniadau, a sylwadau ar yr effaith a gyflawnwyd hyd yma.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r adroddiad sy'n amlinellu effaith gwaith Consortiwm Canolbarth y De.

<u>Rhesymau dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

746 CEFNOGAETH I OFALWYR IFANC YM MRO MORGANNWG (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y parhaodd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed i gefnogi addysg gofalwyr ifanc.

Amlinellodd yr adroddiad sut y cydweithiodd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion a'r trydydd sector i roi cymorth i ofalwyr ifanc yn yr ysgol. Ers mis Ionawr 2020, bu cynnydd sydyn yn nifer y gofalwyr ifanc, a nododd yr adroddiad mai un ffactor posibl yn hyn o beth oedd y ffaith y nodir gofalwyr ifanc ar lefel ysgol yn well.

Ar ôl iddi gyflwyno’r adroddiad, ymatebodd y Swyddog i ymholiadau’r Aelodau fel a ganlyn:

- Roedd ysgolion yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod tanadrodd o ran nifer y plant a oedd yn ofalwyr ifanc, gan ystyried y mater yn brosiect hirdymor.
- Roedd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed wedi bod yn cyfarfod ag arweinwyr gweithredol a strategol mewn ysgolion i drafod y strategaethau y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â thanadrodd. Un dull allweddol oedd newid y naratif ynghylch gwaith gofalwyr ifanc mewn ymgais i ddileu unrhyw gywilydd neu stigma, er enghraifft disgrifio gofalwyr ifanc yn bobl sydd ag archbwerau, a dosbarthu'r neges hon i'r ysgol gyfan.
- Gan yr oedd y Cyngor yn agosáu at amser y CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion), gofynnwyd i ysgolion edrych eto ar eu cyflwyniadau data yn y gobaith y gallai data eleni adlewyrchu'n fwy cywir nifer y gofalwyr ifanc yn y Fro.
- Roedd gofalwyr ifanc am i rywun wrando arnynt, ac roeddent yn sicrhau bod y Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn ymwybodol o'r cymorth yr oeddent yn teimlo bod ei angen arnynt.
- Roedd darpariaeth ychwanegol yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn cael ei harwain gan adborth gofalwyr ifanc, gan nad oedd un ffordd orau o'u helpu. Er enghraifft, gallai clwb gwaith cartref i helpu gofalwyr ifanc i ddal i fyny fod yn agored i grŵp ehangach o ddisgyblion fel nad oedd ffocws â gofalwyr ifanc. Hefyd, pe bai cyfrifoldebau gofalu yn golygu y gallai gofalwr ifanc fod yn hwyr i'r ysgol ar rai dyddiau, gallai gael pàs a oedd yn golygu y byddai athrawon yn cydnabod yr angen i roi cymorth ychwanegol i'r disgybl hwnnw mewn ffordd briodol.
- Defnyddiwyd diwrnodau HMS i rannu strategaethau ac adnoddau gydag ysgolion ac, wrth symud ymlaen, y bwriad oedd eu defnyddio i siarad â chyrff llywodraethu a Chynghorwyr.
- Roedd aelodau o'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn arbenigo mewn cefnogi gofalwyr ifanc sy'n pontio rhwng Cyfnodau Allweddol 4 a 5 ac mewn sicrhau eu bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, am ganmol gwaith aruthrol y Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed a'i thîm, gan nodi bod gan ofalwyr ifanc rywun, sef y Swyddog, sydd ar eu hochr sy’n cynrychioli eu llais mewn ysgolion ac i Aelodau Etholedig.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r gefnogaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol a diolchiadau’r Pwyllgor i'r Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed ac aelodau staff sy'n gweithio yn y maes gwasanaeth.

Rhesymau dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

747 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2021 (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg yr adroddiad a roddodd wybod am y cynnydd sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2021.

O ran refeniw, rhagwelwyd y gallai'r rhagolwg ar gyfer Dysgu a Sgiliau ar ddiwedd y flwyddyn fod yn alldro o fewn y gyllideb. Roedd trafnidiaeth i'r ysgol yn parhau'n bwysau cost i'r Gyfarwyddiaeth, ond rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei wrthbwyso gan danwariant mewn mannau eraill o fewn y gyllideb. Pennwyd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn sef £59k a rhagwelwyd y byddai'r arbedion hyn yn cael eu cyflawni'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd y gyllideb gyfalaf wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd wedi'i phennu ar £37.950m, a nododd yr adroddiad nifer o newidiadau a wnaed i'r Rhaglen Gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

Wedi ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r sefyllfa o ran y cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad.

748 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 3YDD CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed o ran argymhellion blaenorol y Pwyllgor Craffu ac amserlen newydd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried. Roedd Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth tracio argymhellion ar gyfer Chwarter 3 (mis Hydref i fis Rhagfyr 2021) ac Atodiad B oedd amserlen Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22, fersiwn newydd ohoni a oedd wedi'i dosbarthu i'r Aelodau ac a oedd ar gael ochr yn ochr â'r agenda ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod.

Amlinellodd yr adroddiad nifer o newidiadau a wnaed i amserlen y Rhaglen Waith i'r Aelodau eu hystyried a'u cymeradwyo.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd N.C. Thomas, dywedodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol fod adroddiad argymhellion yn cael ei

baratoi mewn perthynas â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gostau Addysg a byddai hyn yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Grŵp i'w ystyried cyn gynted â phosibl, gyda'r bwriad o gwblhau gwaith y Grŵp cyn diwedd y flwyddyn ddinesig.

Wedi ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) DYLID cymeradwyo Amserlen Blaenraglen Waith y Pwyllgor a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn amodol ar newidiadau fel y'u trafodwyd ac y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth.